

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**ADOLYGIAD POLISI: YR IAITH GYMRAEG MEWN ADDYSG****CYFLWYNIAD GAN Y PWYLLGOR THERAPI LLEFERYDD AC IAITH GYMRAEG (WLSLTC)**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ac yn diolch i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes am roi iddo'r cyfle i wneud hynny.

1. Rhagymadrodd

1.1 Fel rheol, fe gyflogir Therapyddion Lleferydd ac iaith o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a bydd y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau i blant yn rhyngweithio'n agos â staff o'r sector Addysg. Yn y datganiad ar blentyn ag anghenion addysgol arbennig, gellir ystyried bod Therapi Lleferydd ac iaith naill ai'n ddarpariaeth addysgol neu'n ddarpariaeth an-addysgol. Os penderfynir ei fod yn ddarpariaeth addysgol, ar yr AALI y mae'r cyfrifoldeb os na all yr Awdurdod Iechyd wneud darpariaeth. Os yw'r ddarpariaeth yn an-addysgol, mae gan yr AALI hawl i drefnu Therapi Lleferydd ac iaith, ond nid oes rheidrwydd cyfreithiol arno i wneud hynny.

Er hynny, bydd Therapyddion Lleferydd ac iaith hefyd yn gweithio gyda phlant sydd ag amrywiaeth o anhwylderau cyfathrebu nad oes rhaid llunio datganiad ohonynt.

1.2 Yn ogystal â'r uchod, mae angen ystyried ail ddimensiwn i addysg, sef addysgu a hyfforddi Therapyddion Lleferydd ac iaith ar lefel Addysg Uwch.

1.3 Fel y nodwyd yn 'Welsh in the Health Service' (2000), mae Therapi Lleferydd ac iaith yn arbennig o berthnasol i fater darpariaeth drwy'r Gymraeg gan ei fod "yn faes gwaith lle mae'r iaith a'r defnydd ohoni yn elfennau hanfodol ac annatod".

1.4 Mae'r prinder o Therapyddion Lleferydd ac iaith sy'n siarad Cymraeg yn ddigon hysbys, fel y mae'r prinder cyffredinol ohonynt. Amcangyfrif Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith yw bod y Deyrnas Unedig yn brin o 2,500-3,000 ohonynt. Ceir problemau sylweddol yn y 4 gwlad o ran cadw aelodau yn y proffesiwn ac mae amryw o asiantaethau wrthi'n rhoi sylw i'r problemau hynny.

1.5 Mae aelodau o'r proffesiwn yng Nghymru yn rhannu pryderon llawer ynglŷn â'r prinderau a grybwyllwyd uchod, a bwriad y cyflwyniad hwn yw disgrifio rhai o'r camau sydd wedi'u cymryd i roi sylw iddynt. Er mai ar Therapi Lleferydd ac iaith a'r iaith Gymraeg y canolbwyntir, bydd angen cyfeirio o dro i dro at faterion sy'n ymwneud â Therapi Lleferydd ac iaith yn gyffredinol.

- 1.6 Mae arolwg diweddar yn dangos bod 240 o Therapyddion Lleferydd ac laith yng Nghymru, a bod 44 ohonynt yn siarad Cymraeg. Bydd modd cymharu'r ffigurau hyn â'r rhai a fydd yn deillio o'r broses cynllunio gweithlu pan fydd y rheiny ar gael yn ddiweddarach eleni.
- 1.7 O'r israddedigion Therapi Lleferydd ac laith sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru ar hyn o bryd, 13.7% sy'n rhugl eu Cymraeg. Er bod y canrannau'n sefydlog ers tro, gwelwyd cynnydd yn ddiweddar yn nifer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg -
- Yn graddio yn haf 2001 2/18 11% yn siarad Cymraeg
 - Ym mlwyddyn 4 ar hyn o bryd 3/27 11% yn siarad Cymraeg
 - Ym mlwyddyn 3 ar hyn o bryd 2/21 9.5% yn siarad Cymraeg
 - Ym mlwyddyn 2 ar hyn o bryd 3/25 12% yn siarad Cymraeg
 - Ym mlwyddyn 1 ar hyn o bryd 6/29 20.6% yn siarad Cymraeg

Mae project ar waith i geisio cynyddu rhagor ar y ganran (gweler 5.4).

- 1.8 Nid yw nifer y Therapyddion Lleferydd ac laith sy'n siarad Cymraeg ond sy'n cael eu hyfforddiant y tu allan i Gymru yn hysbys, ond mae ymholiadau anffurfiol yn awgrymu mai bach iawn yw'r niferoedd.
- 1.9 Mae'r ffigurau am gyrchfannau cyntaf dros y 5 mlynedd diwethaf yn dangos i bob un ond un o'r graddedigion Cymraeg eu hiaith o Gymru sicrhau swydd yng Nghymru. Mae'r un a oedd heb wneud hynny bellach wedi dychwelyd ac yn gweithio yn y Canolbarth. Mae pob un o'r siaradwyr Cymraeg sydd ar eu blwyddyn olaf ar hyn o bryd wedi cael swydd neu wrthi'n chwilio am swydd yng Nghymru.

2 Pwyllgor Therapi Lleferydd ac laith yr laith Gymraeg (WLSLTC)

- 2.1 Ym mis Tachwedd 1997, bu i'r tîm Therapi Lleferydd ac laith yn Athrofa Prifysgol Caerdydd (UWIC) alw ynghyd nifer o Therapyddion Lleferydd ac laith o bob rhan o Gymru i ystyried addysg a hyfforddiant Therapi Lleferydd ac laith o ran y Gymraeg. Ffurfiwyd Grŵp Llywio a droes yn ddiweddarach yn Bwyllgor Therapi Lleferydd ac laith yr laith Gymraeg. Bellach, mae arno gynrychiolwyr o blith Therapyddion Lleferydd ac laith o bob un o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Arno hefyd mae cynrychiolwyr Bwrdd yr laith Gymraeg a'r Mudiad Ysgolion Meithrin.
- 2.2 Yr oedd teimlad cryf ymhlith y Therapyddion Lleferydd ac laith a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Tachwedd mai'r prif anghenion o ran rhoi sylw i broblemau cadw staff oedd -
- Cefnogaeth i Therapyddion Lleferydd ac laith sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gweithio mewn rhannau o Gymru lle nad oes ond ychydig ohonynt (byddai hyn yn ychwanegol at y gefnogaeth gyffredinol a

gynigir gan y cynlluniau mentora sydd wedi'u sefydlu o fewn y proffesiwn)

- Deunyddiau therapi ac asesu yn Gymraeg
- Rhwydwaith cyfathrebu i Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Yr oedd hyn yn cyd-fynd â barn Grŵp Diddordeb-Penodol yr Iaith Gymraeg (Gweler Adran 3)

2.3 Mae materion eraill wedi'u hychwanegu erbyn hyn ac mae'r Pwyllgor bellach yn ymwneud â'r materion a amlinellir yn 2.3.1 - 2.3.6, sef

2.3.1 Deunyddiau Clinigol Cymraeg

Yn 2000, cafwyd grant o £15,000 oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Addysg Broffesiynol: NHS Cymru) i gyfieithu deunyddiau therapi Saesneg i'r Gymraeg. Cafwyd grant pellach o £18,000 yn 2001 oddi wrth y Cynulliad (Uned Bwrdd yr Iaith Gymraeg) at yr un diben. Er bod cyfieithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r gwaith, rhaid i'r Therapyddion Lleferydd ac Iaith sydd ar y Pwyllgor hefyd roi cryn dipyn o'u hamser iddo. Ac er mai'r Athrofa sy'n gweinyddu'r arian, y Pwyllgor sy'n gwneud pob penderfyniad yn ei gylch. Mae therapydd yng Ngheredigion, yn arbennig, wedi neilltuo llawer o amser i'r gwaith hwn. Mae therapyddion yn Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru yn gweithio ar wahân ar ddatblygu rhai deunyddiau.

2.3.2 Canolfan Adnoddau Cymraeg

Mae is-grŵp o'r Pwyllgor wrthi'n gweithio gyda Dr Daniel Cunliffe o Brifysgol Morgannwg ar sefydlu Canolfan Adnoddau ar y We ar gyfer Therapi Lleferydd ac Iaith a'r Iaith Gymraeg. Mae rhai o'r agweddau ymarferol wedi'u datblygu mewn cysylltiad â Grŵp Diddordeb-Penodol yr Iaith Gymraeg.

2.3.3 Canfyddiad o'r Angen

Mae is-grŵp arall wrthi'n llunio holiadur ar gyfer project tymor-byr i ystyried anghenion penodol cleientiaid unigol a Therapyddion Lleferydd ac Iaith mewn sefyllfa glinigol. Bwriedir defnyddio'r holiadur gyda chleientiaid newydd sy'n perthyn i'r categorïau 'dwyieithog Cymraeg/Saesneg' neu 'uniaith Gymraeg'. Mae angen cael y wybodaeth honno i ddatblygu proffil o'r angen o ran achosion newydd a gyfeirir i sylw Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

2.3.4 Addysg a Hyfforddiant

Ym 1999 fe anfonodd yr Athrofa, drwy'r Pwyllgor, holiadur at bob Therapydd Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio yng Nghymru. Yr oedd y cwestiynau ynddo'n ymwneud â'u haddysg cyn iddynt gofrestru'n Therapyddion Lleferydd ac Iaith, eu datblygiad proffesiynol parhaus, ac anghenion y proffesiwn. Cyfeiriai pob un ohonynt at y Gymraeg ac at ddwyieithrwydd. Mae canlyniadau holiadur yr arolwg wedi'u defnyddio mewn amryw o ffyrdd drwy'r Pwyllgor, Grŵp Diddordeb-Penodol yr Iaith Gymraeg, a'r Sector Addysg Uwch (gweler adran 5).

2.3.5 Projectau Tymor-Hwy

Barn y Pwyllgor oedd bod brys am gael asesiadau clinigol Cymraeg sydd wedi'u safoni'n briodol. Ni chredid bod brasgyfieithiadau o'r profion Saesneg presennol yn ddigon. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried sawl opsiwn, penderfynwyd ceisio cyllid i wneud y canlynol yn y lle cyntaf -

(i) Cefnogi'r cais sy'n cael ei lunio yn Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymraeg i gynhyrchu Prawf Affasia Dwyieithog normedig. Er mai prawf i oedolion yw hwnnw, mae'n berthnasol i'r cyflwyniad hwn gan y bydd ef yn y pen draw yn ychwanegu at yr adnoddau Cymru a fydd ar gael i ddarparu Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn y dyfodol. Mae ef hefyd yn berthnasol am ei fod yn amlygu un o'r llu gofynion sydd ar Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrth eu gwaith.

(ii) Cyfieithu ac ailsafoni'r Prawf Saesneg ar Ddeall Gramadeg. Mae'r prawf Saesneg gwreiddiol i blant yn cael ei ddiweddarau a'i ailsafoni ac mae'r awdur, yr Athro Dorothy Bishop, yn gefnogol iawn i gynlluniau i ddatblygu prawf Cymraeg cyfocrog. Datblygir y prawf Cymraeg gan aelodau o staff Ysgol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Therapi Lleferydd ac Iaith a Seicoleg) ac Ysgol Addysg yr Athrofa. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn ynghylch fffynonellau posibl o gyllid.

2.3.6 Dwyieithrwydd

Mae'r ddadl o fewn y proffesiwn ynglŷn â'r berthynas rhwng mathau o anawsterau cyfathrebu a'r gallu i ddatblygu 2 iaith yn parhau. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau a wneir ynghylch therapi plant sy'n dod wyneb yn wyneb â dwyieithrwydd. Ychydig o ymchwil systematig sydd wedi'i gwneud, er enghraifft, i is-grwpiau Amhariad Iaith-Benodol o ran dwyieithrwydd ac i fodolau o therapi dwy-iaith. Teimlai'r Pwyllgor y gellid dechrau drwy astudio data o astudiaethau achos a rhannu profiad yn fwy systematig. Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith, a chaiff ei ddatblygu mewn cysylltiad â Grŵp Diddordeb-Penodol yr Iaith Gymraeg. Ond wrth symud y gwaith yn ei flaen, ni ddylid cyfyngu'r rhannu gwybodaeth i Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n siarad Cymraeg. Mae'n bwysig bod y broses o ledaenu gwybodaeth a barn yn cynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith uniaith Saesneg sy'n gweithio gyda chleientiaid dwyieithog Cymraeg/Saesneg.

3. Grŵp Diddordeb-Arbennig Therapi Iaith Gymraeg

Defnyddir Grwpiau Diddordeb-Arbennig yn eang ym maes Therapi Lleferydd ac Iaith ledled y Deyrnas Unedig i ddarparu cyfleoedd parhaus i therapyddion ddatblygu'n broffesiynol ac i hwyluso rhyngweithio rhyngddynt.

Tua diwedd y 1990au, fe sefydlwyd Grŵp Diddordeb-Penodol Therapi Iaith Gymraeg ac fe'i cofrestrwyd gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Mae'n gweithredu ar yr un sail â'r

Grwpiau Diddordeb-Penodol eraill, sef bod Therapyddion Lleferydd ac laith yn talu tâl ymaelodi ac yn mynychu cyfarfodydd pan fydd pwysau gwaith ac astudio'n caniatáu. Ei nod yw cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, ar gyfartaledd.

Mae'r Grŵp yn cynnig cyfle i astudio rhagor ar -

- Ieithyddiaeth a seicoieithyddiaeth y Gymraeg
- Ymchwil berthnasol a'i goblygiadau ar gyfer therapi
- Datblygiadau ym maes therapi Cymraeg
- Yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer asesu a therapi

Astudir anghenion Therapyddion Lleferydd ac laith sy'n darparu therapi Cymraeg ac anghenion Therapyddion Lleferydd ac laith di-Gymraeg sy'n cynorthwyo'u cydweithwyr. Mae hyn yn cynnwys yr ymchwil y teimla therapyddion fod angen ei gwneud i'w bwydo ymhellach i ymyraethau therapi ac i ddatblygu adnoddau priodol.

(Gweler 2.3.2 ynghylch cysylltiadau rhwng y Grŵp Diddordeb-Penodol a phroject y We)

4. Addysg a Gwasanaethau Iechyd

4.1 Mae rheolwyr gwasanaethau Therapi Lleferydd ac laith yng Nghymru yn ymwybodol o brinder therapyddion o'r fath sy'n siarad Cymraeg ac o'r angen i osod y prinder hwnnw yn erbyn y diffyg cenedlaethol o Therapyddion Lleferydd ac laith. Mae amryw ohonynt wedi cyfeirio at yr angen i gysylltu gwasanaethau therapi yn hyblyg â gwahanol gefndiroedd addysgol ac ieithyddol plant yng Nghymru.

4.2 Er gwaetha'r ymwybyddiaeth honno, mae gwasanaethau Therapi Lleferydd ac laith drwy'r Gymraeg yn amrywio o Ymddiriedolaeth i Ymddiriedolaeth am amryw o resymau. Mae rhai o'r rhesymau'n ymwneud â'r cyllid sydd i Therapyddion Lleferydd ac laith a chynorthwywyr, ac eraill â phroblemau recriwtio a chadw staff.

4.3 Mae rheolwyr wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i fynd i'r afael â'r materion uchod. Mae rhai ohonynt yn cynnig nawdd i fyfyrwyr i'w hannog i weithio mewn Ymddiriedolaethau penodol ac, yn y lle cyntaf, yn ystyried noddau siaradwyr Cymraeg. Er bod hynny'n ddatblygiad cadarnhaol, cyfyngedig fydd ei botensial oni chysylltir ef â chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg (gweler 5.4).

Bydd rheolwyr eraill yn hysbysebu swyddi i Therapyddion Lleferydd ac laith gan gysylltu cylch gwaith Cymraeg penodol wrthynt. Er bod hynny, unwaith eto, yn gydnabyddiaeth gadarnhaol o'r angen, cyfyngedig fydd ei effaith tra bydd maint y gronfa o ymgeiswyr posibl yn dal i fod yn fach.

Yn ogystal, mae pryder ymhlith rhai rheolwyr y gall y strategaeth honno beidio â chaniatáu i Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n siarad Cymraeg ymgymryd â'r cam angenrheidiol o ddatblygu eu harbenigeddau clinigol gan fod disgwyl i nifer fach o therapyddion ymdrin ag amrywiaeth mawr o anhwylderau.

Mewn rhai achosion ceir trefniadau ar draws Ymddiriedolaethau i brynu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n siarad Cymraeg. Er bod yr hyblygrwydd hwnnw'n ddefnyddiol, nid yw'n ffordd o roi sylw i'r prinder yn y tymor hir.

- 4.4 Amrywio wna'r safbwyntiau ynghylch annog Therapyddion Lleferydd ac Iaith i ddysgu Cymraeg. Mynegodd un rheolwr ddymuniad i weld rhagor o gyfleoedd lleol a rhagor o gyllid i gyfleoedd o'r fath, ond rhybuddiodd un arall "nad yw anfon Therapydd Lleferydd ac Iaith i ddysgu Cymraeg yn ddigonol wrth ddarparu Therapi Lleferydd ac Iaith drwy gyfrwng y Gymraeg".
- 4.5 Amrywio hefyd wna'r safbwyntiau ynghylch pa fodelau o ddarparu gwasanaethau sy'n briodol ar gyfer plant sy'n cael eu haddysg drwy'r Gymraeg ond sy'n dod o wahanol gefndiroedd ieithyddol (gartref). Mae angen rhannu gwybodaeth yn fwy systematig ynghylch gweithrediad ac effeithiolrwydd gwahanol fodelau.
- 4.6 Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n gweithio gyda phlant yn debyg o fod yn rhyngwynebu ag amrywiol bersonél o'r sector addysg. Yn 2000, fe gyhoeddodd yr Adran Addysg a Chyflogaeth (y DfEE) adroddiad o'r enw "Provision for Children with Speech and Language Needs in England & Wales: Facilitating communication between education and health services". Un o'r argymhellion yn yr adroddiad oedd y dylai'r DfEE annog un neu ragor o'r mudiadau gwirfoddol sy'n weithgar ym maes anawsterau cyfathrebu i ddarparu cyd-hyfforddiant arbenigol i athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu a Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Yn ddiweddarach, comisiynwyd ICAN gan y DfEE i gynhyrchu'r hyn a elwir bellach yn Gyd-Fframwaith Datblygu Proffesiynol ac a weithredir ledled y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Mae'n bwysig i'r sector iaith Gymraeg gael ei gydnabod yn y broses hon. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghymru o gofio datblygiad yr Awr Lafaredd a'r angen i gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig.
- 4.7 O fewn ysgolion, gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith weithio gyda chynorthwywyr Therapi Lleferydd ac Iaith a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn ddiweddar, gwelwyd cydnabod yr angen i gytuno ar safonau a monitro goruchwyllo ac addysgu gweithwyr cymorth gofal iechyd yng Nghymru. Gellid estyn y broses honno er mwyn i gynorthwywyr Therapi Lleferydd ac Iaith a chynorthwywyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda phlant sydd â nam ar eu cyfathrebu allu cael eu cyd-hyfforddi, hwyrach drwy dair canolfan, gyda chanran ragbenodedig o siaradwyr Cymraeg.

- 4.8 Lle sefydlir cyrff i gynghori ynghylch anghenion addysgol arbennig a bod eu gwaith yn cynnwys mewnbwn gan asiantaethau fel Therapyddion Lleferydd ac Iaith, byddai o fantais pe gellid rhoi sylw'n systematig i anghenion plant sy'n siarad Cymraeg, e.e. drwy ffurfio is-grwpiau penodol.
- 4.9 Er y cyfeiriwyd yn fynych uchod at anghenion plant, mae hi hefyd yn hanfodol i'r materion a godwyd gael eu hystyried yng ngoleuni'r agenda dysgu gydol oes. Mae cyfran o Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gweithio'n benodol, er enghraifft, gydag oedolion sydd ag anawsterau dysgu, ac mae angen cydnabod anghenion y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth honno.

5. Addysg Uwch

- 5.1 Addysgir a hyfforddir Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru drwy'r cwrs BSc (Anrhydedd) 4-blynedd mewn Therapi Lleferydd ac Iaith yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Yng Nghymru, fel ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, cyfyngir ar nifer y myfyrwyr newydd gan faint y proffesiwn a'r cyfyngiad, sy'n deillio o hynny, ar nifer y lleoliadau clinigol at ddibenion hyfforddi myfyrwyr. Er gwaetha'r cyfyngiadau hynny, gwelwyd cynnydd o 50% rhwng 1997 a 2001 yn nifer y myfyrwyr Therapi Lleferydd ac Iaith a dderbyniwyd i'r Athrofa.
- 5.2 Mae Tîm Therapi Lleferydd ac Iaith yr Athrofa wedi cael cais gan Adran NHS Cymru y Cynulliad i gynyddu 15% yn rhagor, o fis Medi 2002 ymlaen, ar nifer y myfyrwyr newydd y bydd yn eu derbyn i Flwyddyn 1. Er bod y tîm wedi cytuno i wneud hynny cyhyd ag y bodlonir rhai amodau, mae ef wedi pwysleisio ei fod yn dal i bryderu ynghylch nifer y lleoliadau sydd ar gael. Er mwyn hwyluso sicrhau lleoliadau, aeth tîm yr Athrofa i'r afael yn ddiweddar â'r dasg uchelgeisiol o gyfarfod â phob rheolwr(aig) Therapi Lleferydd ac Iaith yng Nghymru yn unigol. Erbyn diwedd Ebrill, bydd aelodau'r tîm wedi cyfarfod â 50% o'r rheolwyr, a'r gobraith yw cwblhau'r dasg erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Mae'r rhain yn ychwanegol at y cysylltiadau rheolaidd sydd eisoes wedi'u sefydlu â rheolwyr.
- 5.3 Un o ddibenion cyfarfod â'r rheolwyr yn unigol yw ymchwilio i ddulliau o gyflwyno hyfforddiant clinigol yn hyblyg fel bod modd ecsbloetio'n fwy effeithiol y rhannau o Gymru na ddefnyddir digon arnynt ar hyn o bryd, a thrwy hynny estyn y ddarpariaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg.
- 5.4 Gan na fyddai cynyddu nifer y myfyrwyr newydd ohono'i hun, wrth gwrs, yn arwain at dderbyn rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae angen marchnata a hybu'r proffesiwn yn rhagweithiol ymysg darpar fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae gwaith o bwys wedi'i wneud yn y Gogledd Orllewin drwy gyfrwng sgysiaau am yrfaoedd, a diwrnodau agored, yn Gymraeg mewn ysgolion a cholegau trydyddol. Yn ogystal, mae angen

cyhoedduswydd ar lefel Cymru gyfan. I'r diben hwnnw, mae'r Athrofa wedi cychwyn project gydag ysgol uwchradd cyfrwng-Cymraeg yng Nghaerdydd i baratoi fideo yn Gymraeg a Saesneg ar waith y Therapydd Lleferydd ac Iaith. Y bwriad yw rhagbrofi'r fideo yn yr ysgol honno ac yna ddsbarthu copïau o'r fersiwn terfynol ohoni i bob ysgol uwchradd cyfrwng-Cymraeg yng Nghymru. Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cefnogi'r fenter hon a hefyd yn cysylltu â'r Athrofa ynghylch datblygu fersiwn Cymraeg o CD fel cymorth recriwtio.

- 5.5 Cyfeiriwyd eisoes at yr holiadur a ddsbarthwyd ym 1999. Nid oes modd cynnwys y manylion yn y fan hon, ond mae'r atebion i'r cwestiwn canlynol yn ddiddorol - "O ran hyfforddiant cyn-gofrestru mewn Therapi Lleferydd ac Iaith, nodwch yr eitemau isod yn nhrefn eu blaenoriaeth i chi".

Pan ystyriwyd pob un o'r 192 o ymatebion, cafwyd mai dyma oedd trefn eu blaenoriaeth -

Blaenoriaeth	1 ^{af}	Rhai modiwlau ar faterion iaith Gymraeg
	Ail	Defnyddio'r Gymraeg mewn enghreifftiau yn ystod y cwrs
	3 ^{ydd}	Trafod ymchwil, a gwneud ymchwil, i agweddau clinigol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg
	4 ^{ydd}	Profiad clinigol yn Gymraeg
	5 ^{ed}	Detholiad o ddarlithiau/sesiynau tiwtorial yn Gymraeg
	6 ^{ed}	Dysgu cwrs cyfan yn Gymraeg

Pan wahanwyd atebion y Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n siarad Cymraeg oddi wrth atebion y lleill, dyma'r drefn a gafwyd:

Blaenoriaeth	1 ^{af}	Trafod ymchwil, a gwneud ymchwil, i agweddau clinigol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg
	Ail	Rhai modiwlau ar faterion iaith Gymraeg
	3 ^{ydd}	Profiad clinigol yn Gymraeg
	4 ^{ydd}	Detholiad o ddarlithiau/sesiynau tiwtorial yn Gymraeg
	5 ^{ed}	Defnyddio'r Gymraeg mewn enghreifftiau yn ystod y cwrs
	6 ^{ed}	Dysgu cwrs cyfan yn Gymraeg

Mae'r ddwy drefn uchod yn dangos mai barn y mwyafrif o'r ymatebwyr yw nad yw materion o ran addysgu gweithwyr proffesiynol yn y dyfodol yn ymwneud yn unig â chyfrwng y cyflwyno.

- 5.6 Fel y gwelwyd uchod, y flaenoriaeth gyntaf, ym marn y siaradwyr Cymraeg, oedd ymchwil. Cyfeiriwyd at hyn eisoes yn 2.3.5 a 2.3.6.

Y tu allan i'r sector addysg uwch, mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn y Gogledd Orllewin wrthi'n ceisio cyllid i ymchwilio i batrymau datblygol cysrawen, morffoleg a threigladau'r Gymraeg er mwyn darparu gweithdrefn samplu at ddefnydd clinigol. Maent hefyd yn cysylltu â Therapyddion Lleferydd ac Iaith mewn Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru ynghylch datblygu pecyn ffonoleg at ddibenion clinigol.

- 5.7 Yn 6^{ed} uchod, yr oedd 'dysgu cwrs cyfan yn Gymraeg'. O ran y mater hwn, gwnaed astudiaeth dichonolrwydd gan Melhuish ac Evans, ar ran y Swyddfa Gymreig (fel yr oedd ar y pryd) ym 1992. Fe ystyriodd yr astudiaeth honno sefydlu cwrs Therapi Lleferydd ac Iaith yng Nghymru gan gyfeirio'n benodol, mae'n debyg, at y Gymraeg. Nid oedd manylion yr adroddiad a ddeilliodd o hynny ar gael i awduron y cyflwyniad hwn adeg llunio hyn o lith. O gofio bod yr adroddiad hwnnw'n 10 mlwydd oed erbyn hyn, mae'n ymddangos mai cam rhesymol fyddai gwneud astudiaeth dichonolrwydd newydd.
- 5.8 Yn 3^{ydd} uchod yr oedd profiad clinigol, ac fe soniwyd am fater lleoliadau clinigol eisoes yn 5.2 a 5.3. Yn ogystal, mae'r Athrofa, ers rhai blynyddoedd, yn rhedeg clinig paediatrig Cymraeg ar ran ei Hymddiriedolaeth NHS leol. Lleoliad addysgu i fyfyrwyr 3^{edd} flwyddyn yw hwnnw, a'r Athrofa sy'n ei weinyddu ac yn ei ariannu.
- 5.9 Yn 5^{ed} uchod yr oedd 'Defnyddio'r Gymraeg mewn enghreifftiau yn ystod y cwrs'. Er y defnyddir enghreifftiau o'r fath mewn amryw o'r modiwlau ar gwrs gradd yr Athrofa mewn Therapi Lleferydd ac Iaith, fe gydnabyddir mai potensial cyfyngedig iawn sydd i hynny, ynddo'i hun, ddatblygu ethos dwyieithog.
- 5.10 Er mwyn i'r datblygiad hwnnw ddigwydd, ac er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth i fyfyrwyr Therapi Lleferydd ac Iaith dwyieithog Cymraeg/Saesneg, mae angen hefyd ystyried rôl addysgu a llenyddiaeth yn Gymraeg. Yn 2002, rhyddhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru arian i ddatblygu darpariaeth yn y Gymraeg. Er i'r Cyngor gydnabod pwysigrwydd cynyddu'r ddarpariaeth hon mewn Therapi Lleferydd ac Iaith, mynegodd bryderon ynghylch defnyddio'r dyraniad at y diben hwnnw o gofio mai'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd bellach yn ariannu cyrsiau Therapi Lleferydd ac Iaith. Gan i'r Cyngor fod yn fodlon, am gyfnod cyfyngedig, i gefnogi'r gyfran fach o'r grant a gâi ei chyfeirio at gynhyrchu adnoddau, dechreuwyd ar y gwaith o brynu deunyddiau Cymraeg i'r myfyrwyr ac ar gyfieithu peth o lenyddiaeth y cwrs i'r Gymraeg.

Er mai'r bwriad gwreiddiol hefyd oedd datblygu addysgu drwy ddulliau dwyieithog (gweler 5.11), teimlai'r Cyngor y byddai angen i'r Athrofa, pe dymunai ddefnyddio cyllid y Cyngor i sicrhau datblygiadau ym maes Therapi Lleferydd ac Iaith, benderfynu a ellid caniatáu hynny, a byddai'n disgwyl i'r Athrofa ofyn i'r rhai a'i hariannai o'r Gwasanaeth

lechyd egluro'r sefyllfa wrthi. Mae cais am yr eglurhad hwnnw wedi'i anfon atynt.

5.11 Ers blynyddoedd lawer, mae'r cwrs Therapi Lleferydd ac Iaith yng Nghymru yn cynnwys modiwl Astudiaethau Dwyieithog gorfodol, ac ynddo mae opsiwn Cymraeg. Nod y modiwl ar hyd yr amser fu cynyddu'r ymwybyddiaeth o sialens, nodweddion a manteision dwyieithrwydd, ac astudio cymhwyso theorïau dwyieithrwydd at gyd-destunau clinigol ac addysgol. Rhesymol, i bob golwg, felly, oedd cychwyn y broses o gyflwyno'r addysgu yn ddwyieithog gyda'r modiwl hwn ac mae fframwaith eisoes wedi'i sefydlu. Cydnabyddir -

- Nad yw hwn ond un modiwl ymhlith llawer
- Bod sawl model o addysgu dwyieithog
- Bod cyfleoedd i gysylltu â Phrifysgolion eraill (gweler "Acknowledging Need", 2001)

ond mae'n ddechrau datblygiad maith, cymhleth a thymor-hir.

5.12 Soniwyd eisoes am gyhoeddiad y DfEE (2000). Yn dilyn ei gyhoeddi, cyfarfu aelodau o dîm Therapi Lleferydd ac Iaith yr Athrofa â staff o Ysgol Addysg yr Athrofa i ystyried ffyrdd posibl o addysgu Therapyddion Lleferydd ac Iaith israddedig ac athrawon gyda'i gilydd. Er bod potensial i ddatblygu hyn o ran y Gymraeg, rhaid cofio mai bach iawn yw'r timau staff perthnasol. At hynny, byddai angen ystyried y datblygiadau yng ngoleuni'r ffaith fod y cyrsiau Therapi Lleferydd ac Iaith a'r cyrsiau hyfforddi athrawon eisoes yn drwm eu cynnwys. O ran staff darlithio Therapi Lleferydd ac Iaith, gellid dadlau bod angen rhagor o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau ymrwymiad i'r Gymraeg. O gofio hynny, mae pob hysbyseb dros y 7 mlynedd diwethaf wedi dweud yn benodol y bydd croeso i geisiadau gan siaradwyr Cymraeg. Efallai nad yw diffyg llwyddiant y strategaeth honno'n syndod o gofio pa mor anodd yw hi i ddenu staff addysgu i gyrsiau Therapi Lleferydd ac Iaith, ac mae'n debyg y bydd yr anhawster hwnnw'n cynyddu yng ngoleuni'r codiadau cyflog a roddwyd yn ddiweddar i staff Therapi Lleferydd ac Iaith yn y Gwasanaeth Iechyd, a'r bwlch, yn sgil hynny, rhwng cyflogau'r ddau sector.

Crynodeb

Mae'r materion sy'n cysylltu Therapi Lleferydd ac Iaith â'r Gymraeg mewn addysg (yn ei hamryfal ffurfiau) yn amlweddol. Er y ceisir rhoi sylw i'r materion hynny o fewn y proffesiwn, bach yw nifer y bobl sy'n ymwneud â gyrru projectau yn eu blaen. At hynny, mae'r bobl hynny eisoes yn ymgodysu â gofynion a phwysau croes.

Er mor frwd fu'r ymatebion hyd yn hyn, fe gydnabyddir iddynt fod yn brin o weledigaeth a chydlyniad strategol. Manteisiol, yn y pen draw, fyddai sicrhau cyllid i hwyluso datblygiadau yn y maes hwn mewn ffordd unedig. Ond i sicrhau hynny, cam cyntaf buddiol fyddai cael cyllid i wneud arolwg systematig o'r lluo materion perthnasol. Cylch gwaith y sawl a wnâi'r arolwg fyddai gweithio'n agos gydag aelodau o'r proffesiwn i sefydlu strategaeth gytûn ac iddi amcanion a blaenoriaethau realistig.

Er y cydnabyddir y gellid cynnal arolwg o'r ddarpariaeth Gymraeg o ran Therapi Lleferydd ac Iaith o dan fantell y ddarpariaeth gofal iechyd yn gyffredinol, mae statws yr iaith yn y maes hwn a natur ei gysylltiadau ag addysg yn unigryw, ac felly'n haeddu bod yn destun arolwg sy'n benodol i'r proffesiwn.